









Beech Mast Mesen Ffawydd

I am a Beech Mast, the nut that is produced by the Beech tree which you are standing next to. I was often used to feed pigs to fatten them up for market, as I contain lots of oil. The timber from Beech trees is often used to make furniture and drums.

Mesen Ffawydd ydw i, y gneuen sy'n tyfu ar y Ffawyddden rydych yn sefyll wrthi. Ro'n i'n aml yn cael fy nefnyddio i fwydo moch i'w tewhau ar gyfer y farchnad gan fy mod yn llawn olew. Yn aml, caiff pren Ffawydd ei ddefnyddio i greu dodrefn a drymiau.

Make a rubbing of the Beech Mast here
Gwnewch rwbïad o Fesen Ffawydd yma




Ash Onnen

I have a link with the Vikings and their god Odin. If you look carefully in the autumn you will see my flying seeds ("keys") dropping from the tree and spiralling to the ground like a helicopter. Man has used the timber from me to make aircraft wings and archers bows.

Mae gen i gysylltiad â'r Llychlynwyr a'u duw, Odin. Os edrychwch yn ofalus arna i yn yr hydref fe welwch fy hadau adeiniog ("allwedd Mair") yn disgyn o'r goeden ac yn troelli i'r llawr fel hofrennydd. Mae dyn wedi defnyddio fy mhren i wneud adenydd awyrennau a saethau.

Make a rubbing of the Ash leaf here
Gwnewch rwbïad o ddeilen onnen yma



Bullhead Fish Penlletwad

I like clean and shallow fast flowing water and you will often find me under stones avoiding the current. The male guards the eggs laid by the female. I am also known as the "Miller's Thumb" but get my Bullhead name from my large head.

Dwi'n hoff o ddŵr cyflym glân a bas. Yn aml, dwi o dan y cerrig yn osgoi'r cerrynt. Mae'r dynion yn gofalu am yr wyau y mae'r merched yn eu dodwy.

Rydwi i hefyd yn cael fy ngalw'n "Fawd y Melinydd", ond mae'r enw Penlletwad yn cael ei ddefnyddio oherwydd fy mhen mawr.

Make a rubbing of the Bullhead Fish here
Gwnewch rwbïad o Fawd y Melinydd yma




Yellow Flag Iris

Gellesgen Felen

I have a bright yellow flower but I come in many colours. I really like it here by the pond as I grow best in very wet conditions. Iris was the Greek goddess of the rainbow, and messenger to the gods. I am also known as “Jacob’s sword” because of the shape of my leaves.

Mae gen i flodyn melyn llachar, ond dwi’n dod mewn lliwiau amrywiol. Dwi wrth fy modd yma ger y pwll gan fy mod i’n tyfu orau ar dir gwlyb iawn. Fe’m gelwir hefyd yn “gleddyf iago” oherwydd siâp fy nail.

Make a rubbing of the Yellow Flag Iris here
Gwnewch rwbiad o’r Gellesgen Felen yma



Holly Celyn

I am a plant and can live for up to 500 years. Druids wore holly wreaths on their heads, but I am now used for Christmas decorations. Some of my leaves have sharp spines so please be careful if you touch them. I have bright red berries that smaller animals like to eat – they’re not for humans though!

Planhigyn dwi, a galla i fyw am hyd at 500 mlynedd. Arferai derwyddon wisgo torchau celyn am eu pennau, ond bellach mae pobl yn fy nefnyddio fel addurn Nadolig. Mae rhai o fy nail yn bigog iawn, felly byddwch yn ofalus os byddwch yn cyffwrdd â nhw. Mae gen i aeron coch llachar y mae anifeiliaid wrth eu bodd yn eu bwyta – ond dydyn nhw ddim yn addas i bobl!

Make a rubbing of the Holly leaf here
Gwnewch rwbiad o ddeilen Celynnen
fan hyn




Fern Rhedynen

I am a very primitive type of plant, my relatives existed when dinosaurs roamed the planet about 200 - 300 million years ago. In recent times Victorian plant hunters travelled the world to find new species that they could plant in their large stately gardens.

Rwyf yn fath cyntefig iawn o blanhigyn, roedd planhigion tebyg yn bodoli pan roedd deinosoriaid yn rhodio'r ddaear tua 200 – 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Yn ddiweddarach, byddai helwyr planhigion o oes Fictoria yn teithio'r byd i ddod o hyd i rywogaethau newydd y gallen nhw eu plannu yn eu gerddi.

Make a rubbing of the Fern leaf here
Gwnewch rwbiad o ddeilen rhedynen yma




Alder Cone Conyn Gwernen

I grow on alder trees and provide winter food for some birds that use their small beaks to break me open to get to my seeds. Alder timber resists water well and was used to build foundations in Venice, Italy.

Dwi'n tyfu ar y wernen, ac mae rhai o'r adar yn defnyddio'u pigau bach i fy nhorri ar agor i fwyta fy hadau dros y gaeaf. Mae pren y wernen yn gwrthsefyll dŵr yn dda, ac fe'i defnyddiwyd i adeiladu sylfeini Fenis, yn yr Eidal.

Make a rubbing of Alder Cone here
Gwnewch rwbiad o Gonyn Gwernen yma



Woodlouse Mochyn Coed

I am very different from you – I breathe through lungs on my back legs! I have 14 legs so I am a Crustacean, not an Insect! I am called “mochyn coed” in Welsh or “wood pig” which describes how I live and feed by foraging. My favourite places to hide and feed are damp, dark places like under rocks and logs.

Dwi'n wahanol iawn i chi. Dwi'n anadlu drwy fy ysgyfaint ar fy nghoesau cefn! Mae gen i 14 o goesau felly cramennog ydw i, nid pryfyn! Maen nhw'n fy ngalw yn fochyn coed am fy mod yn byw ac yn bwydo drwy chwilota, fel mochyn. Fy hoff lefydd i guddio yw o dan gerrig a boncyffion mewn llefydd llaith a thywyll.

Make a rubbing of the Woodlouse here
Gwnewch rwbiad o'r mochyn coed fan hyn




Toad Llyffant

I started life as a tadpole from eggs laid into a pond. I then slowly grew and changed into a toad (metamorphosis) with brown skin covered with wart-like lumps. I hide during the day but come out at night to hunt for insects. Having no teeth, I have to swallow food whole!

Dechreuais fy mywyd fel penbwl, yn dod o wyau a gafodd eu dodwy mewn pwll. Yna, tyfais yn araf a newidiais yn froga gyda chroen brown. Bydda i'n cuddio yn ystod y dydd ond yn hela am bryfed yn y nos. Gan nad oes gen i ddannedd mae'n rhaid i mi lyncu fy mwyd yn gyfan!

Make a rubbing of the toad here
Gwnewch rwbiad o'r llyffant fan hyn




Dragonfly Gwas y neidr

I am an insect with 6 legs and 4 wings, which really help me zoom around at 10-15 metres per second. I eat mosquitoes, bees, wasps and flies that I catch whilst I am flying. The old welsh name “gwas-y-neidr” means “adder’s servant” and shows that I was linked to snakes in the olden days.

Pryfyn â 6 choes a 4 adain ydw i, sy’n helpu i mi wibio o amgylch y lle’n gyflym tua 10-15 metr yr eiliad! Rydw i’n bwyta mosgitos, gwenyn, cacwn a phryfed y bydda i’n eu dal wrth hedfan. Maen nhw’n fy ngalw’n was y neidr oherwydd roedd pobl arfer meddwl fod gen i gysylltiad â nadroedd.

Make a rubbing of the Dragonfly here
Gwnewch rwbiad o was y neidr yma



Buzzard Bwncath

I am a big bird of prey and have a strong beak, sharp claws and a wing span of 109 – 136 cm. To impress my partner I fly up really high in the sky and then dive back down spiralling, twisting and turning as I go.

Aderyn ysglyfaethus mawr ydw i â phig gref, crafangau miniog ac adenydd sydd rhwng 109-136cm wedi’u lledaenu. I greu argraff ar fy mhartner bydda i’n hedfan yn uchel i’r awyr cyn plymio yn ôl i’r ddaear gan droi a throsi ar y ffordd.

Make a rubbing of the Buzzard here
Gwnewch rwbiad o’r Bwncath fan hyn

Instructions:

Follow the map inside to find each of the 12 marker posts in and around Nant Fawr Community Woodlands.

Each post has a metal plaque on top with a picture of a plant, animal, insect or bird that you might see in and around Nant Fawr Community Woodlands.

Once you get to the first plaque, match the picture in the box on the leaflet to the picture on the top of the plaque.

- Place the leaflet over the plaque
- Hold the paper firmly in place, then using a coloured pencil or crayon, rub over the top
- Lift the paper off and see the picture revealed and read the fun facts about this picture.
- Continue around the park to find all 12 plaques

The first post also has a QR code. Use a Smart

- phone to scan for more information about the picture on the post.

HAVE FUN!



The Friends of Nant Fawr Community Woodlands in partnership with Parks Services manage the area.

For more information about the Friends of Nant Fawr Community Woodlands please contact:

nantfawrcommunity@gmail.com

or visit: www.friends-of-nant-fawr.blogspot.co.uk

For information about Parks please contact:

Tel: 029 2068 4000, Email: parks@cardiff.gov.uk

or visit: www.cardiff.gov.uk/parks

For further information about biodiversity and other Wildlife Explorer Trails in Cardiff please contact:

biodiversity@cardiff.gov.uk

or visit: www.cardiff.gov.uk/biodiversity

For information about walks and other things to do outdoors in Cardiff's countryside please contact:

countryside@cardiff.gov.uk

or visit: www.cardiff.gov.uk/countryside or

www.outdoorcardiff.com

Cyfarwyddiadau:

Dilynwch y map y tu mewn i ddod o hyd i bob un o'r 12 o byst marcio yng Nghoetir Cymunedol Nant Fawr.

Ar ben bob postyn mae plac metel gyda llun planhigyn, anifail, pryfyn neu aderyn y gallech ddod ar ei draws yng Nghoetir Cymunedol Nant Fawr.


Unwaith i chi gyrraedd y plac cyntaf, parwch y llun yn y bocs ar y daflen gyda'r llun ar ben y plac.

- Daliwch y daflen dros y plac
- a chan ddefnyddio pensil lliw neu greon, rhwbiwch drosto.
- Codwch y papur i weld y llun a darllen y ffeithiau difyr am y llun hwn
- Ewch yn eich blaen o amgylch y parc i ddarganfod pob un o'r 12 o blaciau

Mae gan y postyn cyntaf god QR hefyd. Defnyddiwch Ffôn

- Clyfar i sganio am ragor o wybodaeth am y llun ar y postyn.

MWYNHEWCH!



Cyfeillion Coetir Cymunedol Nant Fawr sy'n rheoli'r ardal mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Parciau.

I gael rhagor o wybodaeth am Gyfeillion Coetir Cymunedol Nant Fawr, cysylltwch â:

nantfawrcommunity@gmail.com

neu ewch: www.friends-of-nant-fawr.blogspot.co.uk

I gael rhagor o wybodaeth am y Parciau cysylltwch â:

Ffôn: 029 2068 4000 E-bost: parciau@caerdydd.gov.uk

neu ewch i: www.caerdydd.gov.uk/parciau

I gael rhagor o wybodaeth am fioamrywiaeth a Llwybrau Antur Bywyd Gwyllt eraill Caerdydd cysylltwch â:

bioamrywiaeth@caerdydd.gov.uk

neu ewch i: www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth

I gael rhagor o wybodaeth am deithiau cerdded a phethau eraill i'w gwneud yng nghefn gwlad Caerdydd cysylltwch â:

cefngwlad@caerdydd.gov.uk neu

ewch i: www.caerdydd.gov.uk/cefngwlad neu

www.caerdyddawyragored.com



Smartphone:
Scan here for more information.
Ffôn call:
Sganiwch yma i gael rhagor o wybodaeth.



Ariennir gan
Llywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

